Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Ymateb Medr i gynnig Cyngor Sir Penfro i gau Ysgol Wirfoddol a Reolir Dinbych-y-pysgod ac Ysgol Greenhill i sefydlu Ysgol Gymunedol newydd 3-19 oed

3 Tachwedd 2026

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
www.medr.cymru

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Ymateb i Gyngor Sir Penfro

Cyflwyniad

Mae Medr yn croesawu'r cyfle i ymateb fel ymgynghorai statudol i'r Cynnig gan Awdurdod Lleol Sir Benfro i sefydlu ysgol gymunedol newydd 3-19 oed yn Ninbych-y-pysgod.

Yn sgil Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, sefydlwyd Medr fel y corff rheoleiddio sy'n gyfrifol am ariannu, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru, gan gynnwys dosbarthiadau chweched ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol. Yn sgil y Ddeddf, diwygiwyd Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i roi cyfrifoldeb i Medr am ystyried materion trefniadaeth chweched dosbarth, gan alluogi ymagwedd strategol at gynllunio darpariaeth chweched dosbarth ysgolion o fewn y system addysg drydyddol ehangach.

Wrth ystyried cynigion sy'n effeithio ar ysgolion â darpariaeth chweched dosbarth, mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cydnabod rôl Medr yn goruchwylio rheoleiddio, ansawdd ac ariannu darpariaeth ôl-16, gan gynnwys ei rôl mewn cysylltiad â chynllunio a ffurfio'r cynnig cwricwlwm ar gyfer dysgwyr rhwng 16 ac 19 oed. Yn unol â hynny, mae diddordeb ac ymateb disgwyliedig sylweddol Medr yn unol â'r gofynion a amlinellir yn y Cod yn ymestyn y tu hwnt i'r sefydliad unigol sy'n ymwneud â'r goblygiadau ar gyfer dewis i ddysgwyr a hawliau dysgwyr, llwybrau cynnydd, argaeledd y cwricwlwm a chynaliadwyedd y ddarpariaeth ar draws y system addysg ôl-16 a thrydyddol ehangach.

Wrth baratoi'r ymateb hwn, mae Medr wedi rhoi ystyriaeth benodol i'r ffactorau a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion, gan gynnwys yr ystyriaethau'n ymwneud â safonau addysgol ac ansawdd, deilliannau dysgwyr, hygyrchedd a chynhwysiant, teithio dysgwyr, cynaliadwyedd ariannol a chynllunio strategol sydd wedi eu cynnwys ym mharagraffau 1.5 i 1.23; yr ystyriaethau penodol sy'n berthnasol i ddarpariaeth ôl-16 a'r disgwyliad bod y cynigion yn dangos sut byddant yn gwella deilliannau addysgol ar gyfer dysgwyr a amlinellir ym mharagraff 1.45; a'r darpariaethau yn ymwneud â chynigion trefniadaeth chweched dosbarth sydd wedi eu cynnwys yn adran 3.30 a'r paragraffau cysylltiedig.

Yn gyson â'i gyfrifoldebau o dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 a'r Cwricwla lleol 16 i 18: canllawiau cysylltiedig, sef canllawiau statudol y mae'n rhaid i Medr eu hystyried wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, mae Medr wedi ystyried goblygiadau posibl y cynnig ar gyfer darpariaeth ôl-16, gan gynnwys p'un a fyddai'n cefnogi ystod briodol ac eang o gymwysterau a llwybrau dysgu perthnasol ar gyfer dysgwyr 16 i 18 oed, a sut byddai'n gwneud hynny, yn unol â pharagraff 1.45 y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026).

Yn unol â hynny, mae ymateb Medr yn ystyried p'un a oes gwybodaeth a thystiolaeth ddigonol wedi cael eu darparu i ddangos effaith debygol y cynnig ar Ddeilliannau a Chyfranogiad Dysgwyr; Dewis i Ddysgwyr, Hawl i'r Cwricwlwm a Chynnydd; Cynaliadwyedd a Chynllunio Systemau; Hygyrchedd, Cynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol; yr Iaith Gymraeg a Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg; Ansawdd, Arweinyddiaeth ac Arloesi; a Chyllid a Gwerth am Arian. Cymerwyd y themâu hyn o'r ffactorau a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion, gan gynnwys paragraffau 1.5-1.23, 1.45 a 3.30, ac mae'n eu hadlewyrchu. Er hwylustod, darperir croesgyfeiriad manwl yn mapio pob thema asesu i ddarpariaethau perthnasol y Cod yn **Atodiad A** (tudalen 9 y ddogfen hon).

Gwybodaeth ychwanegol a ystyriwyd gan Medr

Wrth baratoi'r ymateb hwn, mae Medr wedi ystyried y ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd gan yr awdurdod a gwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd trwy ymgysylltu dilynol. Gofynnwyd am y wybodaeth atodol hon i gefnogi ystyriaeth Medr i'r materion hynny sy'n berthnasol i'w gyfrifoldebau statudol mewn cysylltiad ag addysg a hyfforddiant ôl-16.

Mae Medr yn cydnabod bod y fframwaith Dysgu a Sgiliau (Cymru) a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig, gan gynnwys rôl statudol Medr o fewn y broses trefniadaeth ysgolion, wedi cael eu rhoi ar waith yn gymharol ddiweddar. Felly, darparodd yr ymgysylltu ychwanegol gyfle i drafod agweddau ar y cynnig sy'n berthnasol i ddeilliannau dysgwyr, hawl i'r cwricwlwm, cynnydd, cyfranogiad a chynaliadwyedd darpariaeth ôl-16.

Felly, dylid darllen y sylwadau sydd wedi eu cynnwys yn yr ymateb hwn yng nghyd-destun y ddogfen ymgynghori a'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd yn ddiweddarach gan yr awdurdod. Cyfeiriwyd at wybodaeth a gafwyd trwy'r ymgysylltu hwn, lle bo'n berthnasol.

Crynodeb

Mae Medr yn cydnabod y rhesymeg strategol a gyflwynwyd ar gyfer sefydlu un ysgol gymunedol 3-19 oed ac yn cydnabod y manteision posibl a nodwyd yn y cynnig o ran cynnydd dysgwyr, parhad mewn cymorth, cynllunio'r cwricwlwm, arweinyddiaeth, gweithio mewn partneriaeth a chynaliadwyedd darpariaeth ysgolion yn yr ardal yn y tymor hwy.

Er bod Medr yn cydnabod bod yr awdurdod wedi amlinellu'r rhesymeg ar gyfer yr opsiwn y mae'n ei ffafrio, byddai mwy o amlygrwydd o ran sut cafodd modelau cyflwyno ôl-16 amgen eu hystyried a'u diystyru yn rhoi mwy o sicrwydd fod yr holl ddulliau rhesymol i sicrhau darpariaeth ôl-16 gynaliadwy wedi cael eu gwerthuso'n llawn.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn dangos ystyriaeth i ystod eang o ffactorau a nodwyd o fewn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Yn ychwanegol, mae'r wybodaeth atodol a ddarparwyd gan yr awdurdod wedi mynd i'r afael â nifer o'r materion a godwyd trwy ystyriaeth Medr i'r cynnig ac wedi cryfhau dealltwriaeth o'r ddarpariaeth bresennol o ran chweched dosbarth, perfformiad dysgwyr, trefniadau'r cwricwlwm, cyfleoedd cynnydd, gweithio mewn partneriaeth a chyfranogiad dysgwyr.

Mae'r dystiolaeth ychwanegol yn rhoi mwy o eglurder ynglŷn â'r cynnig cwricwlwm presennol, hawl dysgwyr, trefniadau cyflwyno cydweithredol a llwybrau cynnydd. Mae hefyd yn darparu mwy o gyd-destun ynghylch perfformiad, hygyrchedd a chyfranogiad chweched dosbarth, ynghyd â thystiolaeth o gapasiti arwain cryfach a gwelliannau diweddar mewn deilliannau dysgwyr.

Er bod y wybodaeth ychwanegol wedi cryfhau'r sail dystiolaeth mewn nifer o feysydd, mae rhai agweddau yn ddibynnol o hyd ar ddatblygiad yn y dyfodol. Byddai mwy o wybodaeth yn cynorthwyo Medr i ddeall sut bydd manteision disgwyliedig y cynnig yn cael eu gwireddu a'u gwerthuso dros gyfnod, yn enwedig o ran cysylltiad â deilliannau dysgwyr ôl-16, trefniadau'r cwricwlwm yn y dyfodol, modelau cyflwyno cydweithredol,

trefniadau cyfranogiad, cynnydd a phontio cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, a chynaliadwyedd darpariaeth chweched dosbarth yn yr hirdymor.

Deilliannau a Chyfranogiad Dysgwyr

1.5, 1.9 ac 1.45 – Darparodd y cynigiwr wybodaeth ychwanegol i ymateb i'r materion a nodwyd gan Medr mewn cysylltiad â pherfformiad chweched dosbarth, cyfranogiad dysgwyr a manteision disgwyliedig y model 3-19 arfaethedig. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad a ddiweddarwyd yn 2026 sy'n dangos bod 98% o ddysgwyr wedi ennill cymwysterau Lefel 3, graddau A-E, bu gwelliant yng nghanlyniadau Bagloriaeth Medrau Uwch, a chynyddodd sgorau pwyntiau ehangach Blwyddyn 12.

Mae tystiolaeth gadarnhaol o arolygiadau Estyn a gwerthusiadau'r Ymgynghorydd Gwella Ysgolion hefyd yn dangos capasiti arwain cryf o fewn yr ysgolion. Dywedodd Ymgynghorydd Gwella Ysgolion yr awdurdod lleol fod y canlyniadau hyn yn dangos llwybr cadarnhaol mewn perfformiad dysgwyr a'u bod yn darparu tystiolaeth o welliant diweddar mewn deilliannau chweched dosbarth.

Darparodd y cynigiwr fwy o gyd-destun ynghylch tueddiadau perfformiad hanesyddol, hefyd, gan gynnwys tystiolaeth fod cyfran o ddysgwyr a adlewyrchir mewn mesurau perfformiad hanesyddol wedi cael eu haddysgu yn ystod y cyfnod pan roedd Ysgol Greenhill yn destun mesurau arbennig.

Roedd 126 o ddysgwyr chweched dosbarth yn Ysgol Greenhill ym mis Ionawr 2026, sy'n cynnwys 72 o ddysgwyr ym Mlwyddyn 12 a 54 o ddysgwyr ym Mlwyddyn 13, o gymharu â 100 o ddysgwyr yn 2020/21. Dros y cyfnod rhwng **2021/22 a 2024/25**, gostyngodd cyfraddau cwblhau dwy flynedd o **85% i 75%**, tra gostyngodd cyfraddau cyflawniad 3 A*-E dwy flynedd o **67% i 64%**. Roedd y ddau fesur islaw cyfartaledd cyfatebol Sir Benfro a Chymru yn **2024/25**.

Gyda'i gilydd, mae'r wybodaeth ychwanegol yn mynd i'r afael â nifer o faterion a nodwyd mewn cysylltiad â deilliannau a chyfranogiad dysgwyr, ac yn cryfhau dealltwriaeth o berfformiad y ddarpariaeth chweched dosbarth bresennol, manteision addysgol disgwyliedig y model 3-19 arfaethedig a manteision posibl y cynnig ar gyfer dysgwyr ôl-16.

Fodd bynnag, er bod y cynnig yn amlinellu manteision disgwyliedig yr ad-drefnu, nid yw'n nodi dangosyddion perfformiad, targedau na mesurau gwerthuso penodol y byddai effaith yr ad-drefnu ar gyrhaeddiad, cwblhau a chyrchfannau dysgwyr yn cael ei hasesu a'i gwella trwyddynt dros gyfnod.

1.14-1.19 ac 1.45 – Mae'r cynigiwr wedi darparu gwybodaeth ychwanegol ynghylch pellterau teithio i ddarparwyr amgen, amseroedd teithio i Hwlffordd ac effaith bosibl teithio ar gyfranogiad ar gyfer dysgwyr sy'n byw o fewn cymunedau gwledig. Mae'r wybodaeth hon yn darparu cyd-destun defnyddiol ynghylch hygyrchedd a chyfranogiad dysgwyr ac yn cefnogi'r rhesymeg ar gyfer cadw darpariaeth leol.

Gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth yn cryfhau dealltwriaeth o effaith debygol y cynnig ar gyfranogiad a chadw. Fodd bynnag, byddai mwy o dystiolaeth yn ymwneud yn benodol â dysgwyr, gan gynnwys safbwyntiau dysgwyr yn y sector ôl-16, yn darparu asesiad mwy

cynhwysfawr o effaith debygol y cynnig a safbwyntiau dysgwyr ar eu disgwyliadau ynghylch teithio.

1.8, 1.23, 1.45 a 3.17 – Mae'r cynnig yn cynnwys trefniadau pontio, trosglwyddo fel mater o drefn ar gyfer dysgwyr presennol a dyddiad gweithredu bwriadedig, sef Medi 2027. Mae hefyd yn cofnodi mesur cyfartaledd tair blynedd prydau ysgol am ddim o 11.8% yn Ysgol Greenhill, o gymharu ag 15.9% ar gyfer yr awdurdod a 20.1% ar gyfer Cymru.

Er bod y cynnig yn cynnwys tystiolaeth yn ymwneud â deilliannau ôl-16, nid yw'n darparu data deilliannau wedi'i ddadgyfuno yn ôl anfantais. Byddai gwybodaeth ychwanegol yn cynorthwyo i asesu'r graddau y mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar ddysgwyr o wahanol gefndiroedd.

Dewis i Ddysgwyr, Hawl i'r Cwricwlwm a Chynnydd

1.7 ac 1.45 – Mae'r cynigiwr wedi darparu gwybodaeth ychwanegol ynghylch cynnig cwricwlwm presennol Lefel 2 a Lefel 3, gan ddarparu mwy o eglurder ynglŷn â sut caiff dewis i ddysgwyr ei gefnogi ar hyn o bryd. Mae'r cynigiwr yn cadarnhau bod dysgwyr yn cael mynediad at 24 o gyrsiau Lefel 3 ochr yn ochr â darpariaeth Lefel 2 ar hyn o bryd, gan gynnwys cyrsiau TGAU mewn Saesneg, Mathemateg, Llythrennedd Ariannol a Chynllunio gyda Chymorth Cyfrifiadur.

Darparwyd mwy o wybodaeth hefyd ynghylch cyfraniad E-sgol o ran cefnogi argaeledd pynciau, gan gynnwys enghreifftiau fel Cyfrifiadureg, Cymdeithaseg a Daearyddiaeth, ynghyd ag esboniad o sut gall cyflwyno ar y cyd gefnogi parhad cyrsiau gyda charfanau llai o ddysgwyr.

Mae'r dystiolaeth ychwanegol hon yn cynorthwyo dealltwriaeth o'r cynnig cwricwlwm presennol, dewis i ddysgwyr a hawliau dysgwyr, gan gynnwys mynediad at ystod eang o lwybrau dysgu yn gyson ag egwyddorion Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

Er bod y wybodaeth ychwanegol hon yn cryfhau'r achos y gellir sicrhau hawliau dysgwyr trwy drefniadau cydweithredol, mae tystiolaeth ar hyfywedd hirdymor y trefniadau hyn, gan gynnwys cynaliadwyedd carfanau dysgwyr a chyflwyno ar draws y cynnig cwricwlwm llawn, yn gyfyngedig o hyd.

1.45 – Mae'r cynigiwr wedi darparu gwybodaeth ychwanegol ynghylch cyfleoedd cynnydd ac ymgysylltu â chyflogwyr, gan gynnwys cysylltiadau presennol â Phurfa Valero, Penfro, cyfleoedd i gryfhau ymgysylltu ag Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau, a llwybrau cynnydd sy'n arwain at addysg uwch, prentisiaethau a chyflogaeth. Mae'r wybodaeth hon yn darparu mwy o eglurder ynghylch sut gallai'r cynnig gefnogi cynnydd dysgwyr ar draws llwybrau academaidd, galwedigaethol a thechnegol.

Fodd bynnag, byddai mwy o fanylion ynglŷn â sut bydd y trefniadau hyn yn cyfrannu at gynllunio'r cwricwlwm, cynnydd dysgwyr a gwaith partneriaeth cynaliadwy yn y tymor hir yn cefnogi dealltwriaeth gliriach o'u heffaith ddisgwyliedig.

1.7 ac 1.45 – Mae'r wybodaeth ychwanegol yn dangos y bwriedir i weithio mewn partneriaeth gael rôl bwysig mewn cefnogi cyflwyno'r cwricwlwm yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys trefniadau ar y cyd trwy E-sgol, trafodaethau parhaus ag Ysgol Harri Tudur a bod yn agored i ailsefydlu trefniadau cydweithredol â Choleg Penfro. Mae hyn yn darparu

mwy o eglurder ynghylch ymagwedd fwriadedig yr awdurdod at gefnogi ehangder y cwricwlwm, dewis i ddysgwyr a chynnydd trwy drefniadau cyflwyno ar y cyd.

Fodd bynnag, byddai mwy o fanylion ynghylch graddfa cyflwyno ar y cyd, cyfranogiad dysgwyr, trefniadau amserlenni, goblygiadau cludiant, trefniadau sicrhau ansawdd a rôl strategol y partneriaethau hyn yn y dyfodol o ran cefnogi cynllunio yn y tymor hir yn cefnogi dealltwriaeth gliriach o sut y bwriedir i'r model arfaethedig weithredu yn ymarferol.

1.6, 1.12 ac 1.45 – Mae safle presennol Ysgol Greenhill yn cynnwys cyfleusterau gwyddoniaeth, chwaraeon a'r celfyddydau perfformiadol, ynghyd â chae 3G maint llawn a gwblhawyd yn 2025. Mae'r cynnig yn nodi bod ailddatblygu yn y dyfodol yn ffordd bosibl o ymestyn cyfleusterau.

Fodd bynnag, nid yw'n glir ar hyn o bryd beth fyddai ffurf y datblygiadau hyn, gan nad yw'r safle, y cwmpas, yr amserlen a'r trefniadau ariannol wedi cael eu cadarnhau eto. Mae'r cynnig hefyd yn darparu manylion cyfyngedig ynglŷn â sut byddai trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth yn cefnogi cynllunio, cyflwyno a chynaliadwyedd tymor hir darpariaeth ôl-16, gan gynnwys cynllunio'r cwricwlwm, cynnydd dysgwyr a gweithio mewn partneriaeth ar draws y system addysg drydyddol ehangach.

Cynaliadwyedd a Chynllunio Systemau

1.12, 1.20, 1.21 ac 1.45 – Mae'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu rhesymeg strategol glir yn gysylltiedig â gostyngiad yn niferoedd y disgyblion, lleoedd dros ben, cyflwr ystadau a chynaliadwyedd darpariaeth ysgolion yn yr ardal yn y tymor hwy. Mae hefyd yn nodi'r potensial ar gyfer buddsoddiad mewn Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn y dyfodol a defnydd mwy effeithlon o adnoddau trwy greu un ysgol 3-19 oed.

Mae'r cynnig yn darparu niferoedd rhagamcanol y disgyblion, gwybodaeth am ddeiliadaeth a thystiolaeth ynghylch graddfa bresennol darpariaeth ôl-16, sy'n cefnogi dealltwriaeth o'r cyd-destun penodol ar gyfer newid.

Fodd bynnag, nid yw niferoedd rhagamcanol y dysgwyr wedi cael eu dadgyfuno rhwng Blynyddoedd 12 ac 13, sy'n cyfyngu ar asesiad o raddfa, hyfywedd a chynaliadwyedd darpariaeth ôl-16 yn y dyfodol.

1.45 – Mae'r cynigiwr wedi darparu gwybodaeth ynglŷn â'r cynnig cwricwlwm presennol, gan gynnwys ystod eang o ddarpariaeth Lefel 2 a Lefel 3 ar gyfer chweched dosbarth sydd â 126 o ddysgwyr. Mae hyn yn cynorthwyo dealltwriaeth o'r cynnig presennol i ddysgwyr a graddfa'r ddarpariaeth sy'n cael ei chefnogi ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, byddai'r cynnig yn cael ei gryfhau gan fwy o dystiolaeth yn dangos cynaliadwyedd addysgol ac ariannol hirdymor darpariaeth ôl-16, yn cynnwys niferoedd rhagamcanol y dysgwyr, meintiau disgwyliedig grwpiau, rhagdybiaethau cyflwyno'r cwricwlwm a goblygiadau newid demograffig yn barhaus.

1.12, 1.21 ac 1.45 – Capasiti cyhoeddedig Ysgol Greenhill yw 1,194 a rhagwelir y bydd niferoedd y disgyblion ym Mlwyddyn 7-13 yn disgyn o 883 yn 2026 i 764 yn 2031, gan leihau deiliadaeth gyffredinol o 73.9% i 63.9%. Mae'r amcanestyniadau hyn yn darparu cyd-destun defnyddiol ynghylch galw yn y dyfodol.

Fodd bynnag, nid yw'r rhagolygon yn nodi niferoedd y dysgwyr ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 ar wahân, sy'n cyfyngu ar asesu graddfa a hyfywedd y sector ôl-16 yn y dyfodol.

1.20 ac 1.21 – Mae'r ymgynghoriad yn nodi ymrwymiadau tai y disgwylir iddynt gynhyrchu oddeutu 51 o ddisgyblion oedran uwchradd ychwanegol ac yn dangos y gellir gwneud lle i'r rhain mewn capasiti presennol. Mae hefyd yn nodi bod rhesymoli ystadau yn y dyfodol a buddsoddiad Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn fecanweithiau posibl ar gyfer gwella effeithlonrwydd a chynaliadwyedd.

Fodd bynnag, ni fyddai cam cyntaf y cynnig yn lleihau lleoedd dros ben ar unwaith, ac mae unrhyw newid maint darpariaeth yn y dyfodol yn ddibynnol o hyd ar gymeradwyo achosion busnes dilynol. O ganlyniad, mae'r graddau y disgwylir i'r cynnig wella effeithlonrwydd ystadau, lleihau capasiti dros ben neu gryfhau cynaliadwyedd hirdymor darpariaeth ôl-16 yn ansicr o hyd ar hyn o bryd.

Hygyrchedd, Cynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol

1.5, 1.7, 1.8 ac 1.49-1.54 – Mae'r cynnig yn nodi manteision posibl ar gyfer dysgwyr ag ADY, gan gynnwys parhad gwell o gymorth ar draws sectorau addysgol, nodi angen yn gynharach a chyfleoedd i gryfhau darpariaeth arbenigol trwy un model 3-19 oed. Mae'r cynigion hyn yn darparu rhesymeg glir ar gyfer sut gallai dysgwyr elwa ar ymagwedd fwy integredig at gymorth.

Fodd bynnag, darperir gwybodaeth gyfyngedig ynghylch llwybrau cynnydd ôl-16 ar gyfer dysgwyr sy'n defnyddio darpariaeth arbenigol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer cynllunio pontio, cyfle i elwa ar gyfleoedd ôl-16 priodol, cludiant a chymorth parhaus trwy Gynlluniau Datblygu Unigol, lle mae angen.

1.49-1.54 ac 1.45 – Mae'r cynnig yn darparu gwybodaeth ynghylch darpariaeth ADY bresennol ar draws y ddwy ysgol. Cofnododd Ysgol Greenhill fod 64 o ddysgwyr ar ei chofrestr ADY yn CYBLD 2026, gan gynnwys 26 o ddysgwyr â CDUau yr awdurdod lleol a 38 o ddysgwyr â CDUau ysgolion a gynhelir. Mae'r ddwy ysgol yn gweithredu Canolfannau Adnoddau Dysgu â 24 lle. Roedd Canolfan Adnoddau Dysgu Ysgol Greenhill yn gweithredu uwchlaw'r capasiti cynlluniedig, tra roedd capasiti ar gael yn y Ganolfan Adnoddau Dysgu yn Ysgol Wirfoddol a Reolir Dinbych-y-pysgod. Mae'r cynnig yn nodi cyfleoedd i archwilio gwelliannau i ddarpariaeth arbenigol yn y dyfodol trwy'r model arfaethedig.

Fodd bynnag, byddai mwy o wybodaeth ynghylch trefniadau pontio, capasiti arbenigol a chynllunio gweithredu yn y dyfodol yn cynorthwyo i ddeall sut byddai dysgwyr sy'n defnyddio darpariaeth arbenigol ar hyn o bryd yn cael eu cynorthwyo.

1.5 ac 1.23 – Mae'r cynnig yn cynnwys ystyriaeth i gydraddoldeb, lles a chymorth i ddysgwyr, ac yn nodi ystod o weithgarwch gwella ysgol gyfan a fwriedir i gynorthwyo dysgwyr. Fodd bynnag, darperir gwybodaeth gyfyngedig ynghylch effaith ddisgwyliedig y cynnig ar ddysgwyr 16-18 oed, gan gynnwys dysgwyr ag ADY, anableddau neu anfantais economaidd gymdeithasol.

Byddai mwy o wybodaeth yn cynorthwyo i ddeall sut byddai cyfranogiad, cynnydd a deilliannau dysgwyr ar gyfer y grwpiau hyn yn cael eu monitro a'u cefnogi o fewn y trefniadau arfaethedig.

1.14-1.20 ac 1.45 – Mae'r cynnig yn nodi y byddai'r cam cyntaf yn cadw safleoedd a threfniadau cludiant presennol ac yn rhagweld na fydd goblygiadau uniongyrchol o ran costau cludiant. Mae hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ynghylch parhad ar gyfer dysgwyr presennol.

Fodd bynnag, nid yw cymhwyster cludiant, costau dysgwyr a threfniadau teithio ôl-16 sy'n gysylltiedig â chyflwyno cydweithredol wedi eu hamlinellu'n fanwl.

Yr Iaith Gymraeg a Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg

1.9, 1.10 ac 1.45 – Mae'r cynnig yn nodi bod datblygu'r Gymraeg yn faes i'w wella ac yn darparu tystiolaeth o weithgarwch a wnaed wrth ymateb i argymhellion yn deillio o arolygiad Estyn yn Ysgol Greenhill ym mis Ionawr 2024. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu dwyieithog, gweithgarwch y Cwricwlwm Cymreig, ennill Gwobr Efydd y Siarter Iaith a chyfle i elwa ar gyfleoedd dysgu Cymraeg ar gyfer dysgwyr chweched dosbarth a staff trwy ddarpariaeth ar-lein a Choleg Penfro. Mae'r wybodaeth hon yn cynorthwyo dealltwriaeth o weithgarwch presennol i ddatblygu'r Gymraeg.

Fodd bynnag, byddai mwy o wybodaeth ynghylch lefelau cyfranogiad a deilliannau dysgwyr yn cynorthwyo Medr i ddeall effaith y mentrau hyn.

1.11 ac 1.45 – Mae'r cynigiwr yn cadarnhau na fyddai'r cynnig yn cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y tymor byr yn uniongyrchol. Mae'r ymgynghoriad yn cyfeirio at gyfleoedd posibl yn y dyfodol yn gysylltiedig ag Ysgol Wirfoddol a Reolir Dinbych-y-pysgod a chymorth ar gyfer Ysgol Hafan y Môr.

Fodd bynnag, nid yw'r ystyriaethau hyn yn ffurfio rhan o'r cynnig presennol ac maent yn parhau'n destun asesiad ac ymgynghoriad yn y dyfodol.

1.10-1.11 ac 1.45 – Mae'r cynnig yn nodi argaeledd parhaus darpariaeth cyfrwng Cymraeg ranbarthol trwy Ysgol Bro Preseli a darpariaeth dwy ffrwd yn Ysgol Dyffryn Taf. Mae hyn yn darparu rhywfaint o gyd-destun ynghylch llwybrau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn yr ardal ehangach.

Fodd bynnag, nid yw'r ymgynghoriad yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r galw gan ddysgwyr, patrymau cyfranogiad, argaeledd y cwricwlwm, llwybrau cynnydd neu oblygiadau teithio yn y sector ôl-16. Byddai mwy o wybodaeth yn cynorthwyo i ddeall effaith bosibl y cynnig ar fynediad at lwybrau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws y system ôl-16 ehangach.

Ansawdd, Arweinyddiaeth ac Arloesi

1.5 ac 1.9 – Mae'r cynnig yn defnyddio canfyddiadau arolygiad diweddar Estyn a gwerthusiadau'r Ymgynghorydd Gwella Ysgolion, gan gyflwyno tystiolaeth o gryfderau mewn arweinyddiaeth, hunanwerthuso, dysgu proffesiynol a datblygu'r cwricwlwm. Mae'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan yr awdurdod yn cefnogi'r farn ymhellach fod capasiti arwain wedi cryfhau a bod gweithgarwch diweddar i wella ysgolion yn cyfrannu at berfformiad gwell. Mae hyn yn rhoi trosolwg defnyddiol o sefyllfa bresennol yr ysgol ac yn dangos ystyriaeth i ffactorau a nodwyd o fewn y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn ymwneud â gwella ysgolion a safonau addysgol.

1.5, 1.9 ac 1.45 – Mae'r cynigiwr wedi darparu gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â sut gallai model 3-19 oed gefnogi parhad gwell o ran cymorth bugeiliol, arweiniad academaidd a chynnydd dysgwyr trwy gydol taith addysgol dysgwr. Mae'r cynnig yn nodi cyfleoedd ar gyfer trefniadau pontio cryfach rhwng sectorau, cyfleoedd mentora ac arweinyddiaeth estynedig ar gyfer dysgwyr chweched dosbarth a strwythur mwy cydlynus i gefnogi dysgwyr. Mae hyn yn cynorthwyo dealltwriaeth o fanteision addysgol posibl y model arfaethedig.

Fodd bynnag, byddai mwy o wybodaeth ynglŷn â sut bydd y trefniadau hyn yn cael eu monitro a'u gwerthuso ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn cryfhau dealltwriaeth o'u heffaith ddisgwyliedig.

Cyllid a Gwerth am Arian

1.21-1.22 – Mae'r cynnig yn darparu gwybodaeth ynghylch costau presennol, cyflwr ystadau a gofynion buddsoddi. Adroddir bod cost net fesul disgybl Ysgol Greenhill yn £6,071 o gymharu â chyfartaledd ysgolion uwchradd, sef £5,835, tra bod y safle wedi'i asesu yn safle Cyflwr C gydag oddeutu £1.7 miliwn o ôl-groniad o waith cynnal a chadw. Mae'r wybodaeth hon yn darparu cyd-destun perthnasol ynghylch cyflwr asedau, pwysau ariannol a gofynion buddsoddi yn y dyfodol.

1.21-1.22 – Mae'r cynnig hefyd yn darparu amcanestyniadau yn dangos gostyngiad mewn deiliadaeth ac yn nodi pwysau ariannol sy'n effeithio ar y ddwy ysgol. Rhagwelir y bydd deiliadaeth Ysgol Greenhill yn gostwng o 73.9% yn 2026 i 63.9% yn 2031, tra rhagwelir y bydd y ddwy ysgol yn wynebu pwysau ariannol cynyddol dros y tymor canolig. Mae hyn yn cefnogi'r rhesymeg strategol ar gyfer ystyried modelau cyflwyno amgen ac effeithlonrwydd yn y dyfodol.

1.22 – Mae'r cynnig yn nodi effeithlonrwydd posibl trwy un strwythur arwain a rhesymoli gwasanaethau, cyfleusterau, cynnal a chadw a chostau sefydlog.

Fodd bynnag, mae llawer o'r arbedion a ragwelir yn ddibynnol ar benderfyniadau dilynol ynghylch cydleoli, llywodraethu a threfniadau sefydliadol. Nid oes arfarniad o gostau cylchol wedi'u meintoli, asesiad o gostau gweithredu, dadansoddiad sensitifrwydd a model costau cwricwlwm ôl-16 wedi cael eu darparu. O ganlyniad, mae'n anodd asesu cynaliadwyedd ariannol y trefniadau chweched dosbarth arfaethedig neu'r graddau y gellid cynnal ehangder y cwricwlwm a dewis i ddysgwyr dros gyfnod.

1.22 – Mae'r cynnig yn nodi mai Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yw'r llwybr sy'n cael ei ffafrio ar gyfer buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol, ac yn amlinellu cyfleoedd posibl ar gyfer ailddatblygu ystadau.

Fodd bynnag, nid oes opsiwn safle sy'n cael ei ffafrio, cost y cynllun, cyfraniad wedi'i gadarnhau gan yr awdurdod lleol na chymeradwyaeth o ran cyllid wedi cael eu cymeradwyo ar hyn o bryd. Hefyd, nid yw defnydd o safle Ysgol Wirfoddol a Reolir Dinbych-y-pysgod yn y dyfodol wedi cael ei benderfynu eto. O ganlyniad, mae'r goblygiadau ariannol a'r manteision sy'n gysylltiedig â buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol yn ansicr o hyd.

Atodiad A

1. Deilliannau a Chyfranogiad Dysgwyr

- p'un a fydd cynigion yn arwain at welliant yng nghyflawniadau addysgol neu hyfforddiant pobl sydd uwchlaw oedran ysgol gorfodol, ond o dan 19 oed, a sut; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.45 pwynt bwled 1)
- p'un a yw cynigion yn debygol o arwain at gadw a chyfranogiad cynyddol mewn dysgu gan ddysgwyr y tu hwnt i oedran ysgol gorfodol, gan ystyried materion a chostau cludiant i'r dysgwr a phobl eraill, fforddiadwyedd costau o'r fath, a'r tebygolrwydd y bydd dysgwyr yn fodlon teithio; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.45 pwynt bwled 3)
- y graddau y bydd cynigion yn darparu buddion ychwanegol i ddysgwyr o gymharu â'r sefyllfa bresennol ac opsiynau dichonol eraill ar gyfer trefniadaeth ôl-16; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.45 pwynt bwled 9)
- lle mae cynigion yn cynnwys trosglwyddo dysgwyr i ysgolion amgen neu sefydliadau addysg eraill, dylai fod tystiolaeth fel arfer y byddai'r dewis amgen yn cyflawni deilliannau ac yn cynnig darpariaeth sydd o leiaf gyfwerth â'r ddarpariaeth sydd ar gael i'r dysgwyr hynny ar hyn o bryd (gan gynnwys dysgwyr ag ADY); [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.8)
- dylai cynigwyr sicrhau bod y tarfu i ddysgwyr yn cael ei leihau i'r eithaf; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.8)
- effaith y cynigion ar gyrhaeddiad addysgol dysgwyr o gefndiroedd sydd dan anfantais yn economaidd. [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.23)

2. Dewis i Ddysgwyr, Hawl i'r Cwricwlwm a Chynnydd

- p'un a fydd cynigion yn cyfrannu amrywiaeth briodol ac eang o gyrsiau a chymwysterau perthnasol ac o ansawdd uchel, wedi eu llywio gan gyflogwyr, llwybrau dysgu galwedigaethol wedi eu targedu at ddysgwyr o bob gallu, tra'n cynnal cyrsiau TGAU, UG / Safon Uwch a chyrsiau sefydledig eraill, a sut, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf 2021 ac adran 33A-Q Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 ("Deddf 2000") i gefnogi dysgwyr 14-19 oed; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.45 pwynt bwled 2)
- y graddau y mae cynigion yn cyfrannu at welliant ac ansawdd cynnig 14-19 ehangach gan ystyried safbwyntiau rhwydweithiau rhanbarthol 14-19; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.45 pwynt bwled 5)
- effaith y cynigion ar ddarpariaeth 11-16 mewn ysgolion ac ar ddatblygu a chynnal dealltwriaeth ar y cyd o gynnydd gydag ysgolion eraill; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.45 pwynt bwled 6)
- gallu pennaeth / corff llywodraethol ysgolion sy'n destun y cynigion i gyflawni eu gofynion cyfreithiol o dan Ddeddf 2021 ar gyfer Cwricwlwm i Gymru ar gyfer dysgwyr ar draws continwwm addysg 3-16; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.6)
- dylai'r ystyriaeth hon gynnwys ansawdd cynllunio, mabwysiadu a chyflwyno'r cwricwlwm a'r graddau y mae strwythur neu faint yr ysgol yn effeithio ar hyn; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.6)
- sut mae cynigion yn cyd-fynd â'r ddyletswydd statudol i sicrhau darpariaeth cyfleusterau priodol ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant i ddysgwyr rhwng 16 ac

19 oed. Mae cyfleusterau'n 'briodol' os oes digon ohonynt ac mae eu hansawdd yn ddigonol i ddiwallu anghenion rhesymol pobl ifanc. Yn ychwanegol, rhaid i gyfleusterau o'r fath fodloni hawliau dysgwyr i ddilyn cyrsiau astudio o fewn y cwricwlwm lleol a ffurfiwyd o dan adran 33A Deddf 2000. [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.45 pwynt bwled 11)

3. Cynaliadwyedd a Chynllunio Systemau

- sut byddai cynigion yn effeithio ar hyfywedd darparwyr sydd eisoes yn cynnig darpariaeth ôl-16, gan gynnwys dosbarthiadau chweched ysgolion, sefydliadau addysg bellach, a darparwyr hyfforddiant preifat; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.45 pwynt bwled 7)
- p'un a fydd capasiti darpariaeth amgen mewn ysgolion neu ddarpariaeth ôl-16 yn ddigonol ac yn darparu lle o ansawdd cyfatebol o leiaf ar gyfer niferoedd presennol y dysgwyr a niferoedd rhagamcanol y dysgwyr; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.13 pwynt bwled 1)
- gan gyfeirio at natur yr ysgolion sy'n destun cynigion, p'un a yw'r ddarpariaeth amgen mewn ysgolion yn ddigonol i fodloni'r galw presennol a'r galw rhagamcanol; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.13 pwynt bwled 2)
- rhaid asesu a dangos tystiolaeth o'r galw am ddarpariaeth ychwanegol o unrhyw fath mewn ardal; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.20 pwynt bwled 1)
- yr effaith y bydd cynigion yn ei chael ar leoedd dros ben yn yr ardal; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.21 pwynt bwled 1)
- p'un a yw cynigion yn ffurfio rhan o Raglen Fuddsoddi Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yr awdurdod lleol ac yn cyfrannu at sicrhau ysgolion cynaliadwy, ac at reolaeth strategol well o'r ystâd ysgolion. [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.21 pwynt bwled 2)

4. Hygyrchedd, Cynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol

- dylai cyrff perthnasol roi sylw penodol i effaith y cynigion ar grwpiau bregus, gan gynnwys dysgwyr ag ADY; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.5)
- effaith debygol y cynigion ar les, gofal, cymorth ac arweiniad; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.5)
- sut gallai cynigion effeithio ar y ddarpariaeth cludiant ddewisol y gallai awdurdod lleol ei chynnig i ddysgwyr uwchlaw oedran ysgol gorfodol; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.45 pwynt bwled 10)
- gofynion statudol fel yr amlinellir ym Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a chanllawiau statudol cysylltiedig; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.14)
- y goblygiadau i gludiant a'u heffaith; [llyw.cymru] (SOC 2026 paragraffau 1.14-1.15)
- natur teithiau i ysgolion amgen neu sefydliadau addysg eraill ac amseroedd teithio dilynol ar gyfer pob un o'r dysgwyr, gan gynnwys dysgwyr ag ADY; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.19)
- rhaid i drefniadau ar gyfer cael mynediad i'r ysgolion amgen neu sefydliadau addysg eraill hyrwyddo cludiant cynaliadwy; a rhaid iddynt fynd i'r afael ag effaith

bosibl unrhyw anawsterau cludiant ar ymgysylltiad dysgwyr â'r ysgol, a'u presenoldeb yno; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.19)

- p'un a fydd cynigion yn gwella mynediad ar gyfer dysgwyr anabl, yn unol â gofynion adran 88, ac Atodlen 10, i Ddeddf Cydraddoldeb 2010; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.20 pwynt bwled 2)
- unrhyw faterion cydraddoldeb, gan gynnwys y rhai a nodwyd trwy asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb. [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.23)

5. Yr Iaith Gymraeg a Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg

- sut gallai cynigion effeithio ar gynaliadwyedd neu wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y rhwydweithiau 14-19 rhanbarthol, trefniadau partneriaethau lleol a'r ardal ehangach a hyrwyddo mynediad at y cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn addysg ôl-16 a chefnogi'r ddyletswydd strategol a osodir ar Medr i 'hyrwyddo addysg a hyfforddiant ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg'; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.45 pwynt bwled 8)
- y graddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) a gymeradwywyd; [llyw.cymru] (SOC 2026 paragraffau 1.11 ac 1.47)
- sut byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau darpariaeth Gymraeg, ac yn achos yr olaf, amlinellu pam y bydd darpariaeth yn cael ei lleihau, a rhaid dangos tystiolaeth o gamau gweithredu lliniarol; [llyw.cymru] (SOC 2026 paragraffau 1.11 ac 1.47)
- rhaid i ddysgwyr presennol o oedran ysgol gorfodol mewn ysgol lle cynigir cau'r ysgol, lleihau'r capasiti neu gwtogi ystod oedran allu parhau i gael addysg yn eu cyfrwng iaith presennol. [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.13)

6. Ansawdd, Arweinyddiaeth ac Arloesi

- effaith debygol y cynigion ar addysgu a dysgu; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.5)
- effaith debygol y cynigion ar arwain a gwella yn yr ysgol neu'r ysgolion sy'n destun y cynigion, ac mewn unrhyw ysgol neu sefydliad addysg arall y mae'r cynigiwr yn ystyried ei bod/fod yn debygol o gael ei (h)effeithio gan y cynigion; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.5)
- wrth asesu effaith cynigion ar ansawdd a safonau mewn addysg a pha mor effeithiol y mae Cwricwlwm i Gymru yn cael ei wireddu, dylai cyrff perthnasol ystyried unrhyw gyngor perthnasol gan Estyn; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.9)
- dylai cynigwyr gyfeirio at adroddiadau diweddaraf Estyn, arolygiadau ardal, lle maent ar gael, a thystiolaeth arall sy'n deillio o fonitro perfformiad, ac ystyried unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael yn gyffredinol ar effeithiolrwydd ysgol neu sefydliad addysg arall; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.9)
- y graddau y mae'r cynigion yn cefnogi darpariaeth ddigidol a/neu drefniadau dysgu cyfunol. [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.45 pwynt bwled 4)

7. Stiwardiaeth Ariannol a Gwerth am Arian

- yr effaith y bydd y cynigion yn ei chael ar leoedd dros ben yn yr ardal; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.21 pwynt bwled 1)

- costau cylchol cynigion dros gyfnod o 3 blynedd, o leiaf, a ph'un a yw'r cyllid rheolaidd angenrheidiol ar gael; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.22 pwynt bwled 1)
- costau cludiant ychwanegol i'w talu o ganlyniad i'r cynigion; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.22 pwynt bwled 2)
- costau cyfalaf cynigion a ph'un a yw'r cyllid cyfalaf angenrheidiol ar gael; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.22 pwynt bwled 3)
- costau refeniw cynigion, gan gynnwys costau staffio a chostau cynnal a chadw adeiladau, a ph'un a yw'r cyllid refeniw angenrheidiol ar gael; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.22 pwynt bwled 4)
- graddfa unrhyw arbedion net rhagamcanol (gan ystyried refeniw ysgolion, costau cludiant a chyfalaf); [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.22 pwynt bwled 5)
- p'un a fyddai'r ysgolion sy'n destun y cynigion, heb y cynigion, yn wynebu diffygion yn y gyllideb; [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.22 pwynt bwled 6)
- p'un a fydd unrhyw arbedion mewn costau cylchol yn cael eu cadw yng nghyllideb ysgolion yr awdurdod lleol; a [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.22 pwynt bwled 7)
- ph'un a fydd enillion gwerthu (derbyniadau cyfalaf) safleoedd diangen ar gael i dalu costau'r cynnig neu gyfrannu at gost cynigion yn y dyfodol a fydd yn hyrwyddo rheoli lleoedd ysgolion yn effeithiol. [llyw.cymru] (SOC 2026 para. 1.22 pwynt bwled 8)

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government